

Eiddo Coll Canoloesol

Y mae Mick Dean, Swyddog Eiddo'r Esgobaeth, yn gwneud darganfyddiad cyffrous

Yr oedd pererindod canoloesol yn fenter ddifrifol, ac yn aml yn beryglus. Yr oedd Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi yn ymddangos yn uchel yn y drefn ysbrydol, gan fod dwy bererindod i Dŷ Ddewi gyfystyr ag un i Rufain, a thair gyfystyr â Jeriwsalem (er y byddai pwyntiau pererindod yn îs o lawer pe baech yn digwydd byw yn Hwlfordd yn hytrach na Llundain!) Heblaw am y lladron arferol a thrychinebau naturiol, yr oedd gan y daith drwy Gymru y peryglon ychwanegol o groesi sawl afon ac aber.

Y mae fy stori'n dechrau a gorffen yng Nglanyfferi, pentref bach ar lannau'r Afon Tywi, 8 milltir i'r De o Gaerfyrddin. Fel mae'r enw'n awgrymu, yn ystod y canoloesoedd (ac wedyn) yr oedd fferi'n cludo pererinion a'u heiddo draw i Lansteffan, i barhau â'u taith i Dŷ Ddewi, efallai yn ymweld â Ffynnon Sant Anthoni gerllaw sy'n stori arall ynddi'i hun. Yn ddiddorol iawn, credir bod y fferi'n cael ei rhedeg gan Farchogion yr Ysbyty, cyfundrefn filitaraidd Gristnogol gyda chysylltiadau â Marchogion y Deml mwy enwog.



Ewch ymlaen 800+ o flynyddoedd ac rwyn cerdded Beau y ci ar hyd y traeth yng Nglanyfferi, gyda chanfodydd metel ar fenthyg. Wedi ffeindio dau ddarn 2c un ar ôl y llall, ces i arwydd cryf. Wrth gloddio chwe modfedd i lawr i'r tywod, darganfyddais darn bach o blwm, a gredais oedd wedi dod o weithfeydd y rheilffordd gerllaw. Gan ei bod yn bwrw glaw, rhoddais y plwm yn fy mhoced heb ei astudio'n fanwl, a mynd adref.

Wedi glanhau'r darn yn ysgafn, darganfyddais ei fod yn ampula bach iawn(gweler y llun) – rhywbeth a brynid mewn mannau cysegredig i saint a addolid ac mewn mannau cysegredig, i gario dŵr sanctaidd neu olew. Yr oedd hwn yn fath o fathodyn pererin, a wisgwyd o gwmpas y gwddf neu ar ddillad, gan gredu y byddid yn ennill cymorth sant a help i oressgyn trafferthion bywyd. Sylwer ar yr 'X' a ysgrifenyddwyd ar y blaen, yn cynrychioli Crist. Daeth defnyddio 'X' yn boblogaidd yn Ewrop yn y 1500au cynnar, sydd, yn ei dro, yn rhoi i'm darn y dyddiad tua 1540.

Gallai gwisgo bathodyn pererin hefyd wedi bod yn brawf o bererindod ac yn rhywbeth diddorol ac ystyrlon i gofio'r daith. Fel heddiw pan bod ymweliad â safle Ymddiriedolaeth Genedlaethol/Cadw yn cynnig bathodynau a magedau rhewgell yn boblogaidd iawn yn y siop.

Mae'n siŵr y byddai pwy bynnag a gollodd ei ampula wrth groesi ar y fferi wedi bod yn anhapus, ond mae wedi rhoi i ni olwg prin ar fywyd 500 mlynedd yn ôl.